Gweiddi

# Tasg 2

(Heriol, sbardun 3)

**Gweithgareddau grŵp**

1. Dyma baragraff olaf yr eitem newyddion:

   **Beth yw breuddwyd Asani? Cael mynd i'r ysgol a gwella ei fywyd e a bywyd ei deulu ... ond ... pa obaith sydd ganddo?**

   Yn wreiddiol, roedd y gohebydd, Rosina James, wedi bwriadu gorffen ei darn gyda'r paragraff hwn:

   **Does gan Asani ddim gobaith ... dim dyfodol. Dim ond mwy o gloddio ... mwy o ddamweiniau ... fel bod pobl gyfoethog y byd yn medru prynu cadwyni ... breichledi ... a watshis. Ble mae'r tegwch?**

   Mewn grŵp, trafodwch pa ddiwedd yw'r un gorau a pham?

2. Mae'r darn yn dweud bod defnyddio plant yn y mwyngloddiau yn anghyfreithlon, ond bod plant yn dal i weithio ynddynt.

   Mewn grŵp, trafodwch sut mae helpu plant a phobl ifanc fel Asani? Defnyddiwch dystiolaeth o'r darn i gefnogi'ch syniadau.

**Gweithgaredd ar gyfer unigolion**

3. Ysgrifennwch lythyr i gylchgrawn Cymraeg er mwyn gwneud i bobl feddwl yn ddwys cyn prynu gemwaith neu watsh o aur Tanzanïa.